# BWRDD GWELLA

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2011 (9:15am)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Comisiynydd Gareth Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies, Margaret Foster<br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, K. P. Hughes, T. Lloyd Hughes, O. Glyn Jones, H. Eifion Jones, Tom Jones (fel Cadeirydd Pwyllgor Archwilio), B. Owen, G. O. Parry MBE, R. G. Parry OBE, Eric Roberts (fel Is-Gadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol (yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol), Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Swyddog Adran 151 Dros Dro, Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid), Pennaeth Gwasanaeth (Polisi), Rheolydd Gwasanaeth Adnoddau Dynol. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Datblygu Economaidd)<br>Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Mr. Doug Elliott (Ymgynghorydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)<br>Mr. Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Mr. Gareth Hall (Llywodraeth Cymru) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Comisiynydd Mick Giannasi, Y Cynghorydd Selwyn Williams |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr. Huw Lloyd Jones (Swyddfa Archwilio Cymru) ac i Mr. Gareth Hall o Lywodraeth Cymru.

## 1. CADEIRYDD

Y Comisiynydd Gareth Jones oedd yn y Gadair.

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Nid oedd dim i'w ddatgan.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Fel uchod.

## 4. CYLCH GORCHWYL

Cyflwynwyd a chytunwyd ar, gopi o'r cylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer y Bwrdd Gwella.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies mai un o'r rhesymau y tu ôl i sefydlu'r Bwrdd hwn oedd i aelodau etholedig gael mwy o gyswllt ym musnes dydd i ddydd yr Awdurdod. Ni fyddai'r fforwm arbennig hwn yn fforwm sefydledig ffurfiol ond yn fforwm lle gallai Comisiynwyr ddod â

phenderfyniadau y maent wedi eu gwneud fel unigolion neu ar y cyd a byddai'n darparu cyfle i drafod materion yng nghyswllt mynd â'r Rhaglen Wella yn ei blaen.  Byddai materion dydd i ddydd yn derbyn sylw yng nghyfarfodydd y Bwrdd Comisiynwyr.

**5.  SYSTEM FEINCNODI YNYS MÔN AR GYFER DATBLYGU ECONOMAIDD A THWRISTIAETH**

(a)  Cyflwynwyd - Cyflwyniad gan Mr. Andrew Stephens, Cyfarwyddwr Gweithredol, Uned Data Llywodraeth Leol - Cymru, ar rôl Gwybodaeth, Deallusrwydd a Gwella.

Byddai'r sail Gwybodaeth arfaethedig ar gyfer Ynys Môn yn rhoi i'r Awdurdod hwn, ei staff, ei bartneriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol setiau o ddata/dangosyddion perfformiad allweddol cyson a pherthnasol ar gyfer y Sir, yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth mewn ffordd effeithiol ac yn dangos yn glir ac yn gwella ymwybyddiaeth o anghenion a materion lleol.

(b)  Yn dilyn fe gafwyd sesiwn fer o holi cwestiynau ac ateb.

Dywedodd y Comisiynydd Byron Davies bod y Comisiynwyr, wrth gyflwyno system o'r fath, yn ceisio osgoi i'r Rheolwyr i raddau helaeth orfod trafod beth oedd y sefyllfa o safbwynt Ynys Môn yn nhermau tystiolaeth galed.  Roedd y Gweinidog yn symud yn gyflym tuag at wybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth o safbwynt sut yr oedd Awdurdodau'n perfformio. Trwy feincnodi, byddai'r Awdurdod hwn yn gallu dangos trwy dystiolaeth na ellid ei gwadu beth oedd yn digwydd o ran gwelliannau.  Roedd yn gobeithio y byddai rheolwyr fel Swyddfa Archwilio Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Estyn ac ati i gyd yn gallu cael tystiolaeth dda ym Môn y gallent wedyn ei defnyddio i ffurfio barn.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Stephens am ei gyflwyniad a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gydag Uned Data Cymru yn y dyfodol.

**6.  ADRODDIAD CYNNYDD AR BROSIECTAU STRATEGOL MAWR (WYLFA B, YNYS YNNI, PARTH MENTER)**

Cyflwynwyd – Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) ar y cynnydd wnaed hyd yn hyn ac ar y blaenoriaethau brys o safbwynt Ynys Ynni.

Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro (Datblygu Economaidd) ar y Parth Menter a'i oblygiadau i Fôn.  O ganlyniad, byddai swyddogion yn gweithio tuag at gyflwyno prosbectws i Lywodraeth Cymru erbyn dechrau 2012 yn nodi ei gyfeiriad i'r dyfodol fel Parth Menter Ynni.

Dywedodd Mr. Gareth Hall fod 5 o Barthau Menter wedi'u cyhoeddi ac ar gyfer Môn, byddai'r ffocws ar faterion yn ymwneud ag ynni.  Y cyngor arbenigol oedd yn cael ei geisio ac yr oedd Dylan wedi cyfeirio ato oedd nodi'r grŵp cywir o liferi fyddai eu hangen ar gyfer creu twf cynaliadwy yn y Sector Ynni.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiad.*

**7.  BLAENORIAETHAU GWELLA LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

7.1  <u>Arolwg o'r sefyllfa gyfredol</u>

Cafwyd adroddiad gan y Rheolydd Cynllunio Busnes a Rhaglen – Bod yr adroddiad perfformiad am Chwarter 2 yn delio â'r cyfnod o fis Gorffennaf i fis Medi 2011 ac wedi'i ddylunio i ddarparu darlun cynhwysfawr o berfformiad Chwarter 2 yn erbyn (i) blaenoriaethau strategol (ii) amcanion gwella, a (iii) amcanion Gwella Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor fel yr oeddynt wedi'u hamlygu yn adroddiad Chwarter 1 y Comisiynwyr.

Roedd y sefyllfa yr oedd yn adrodd amdani yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn trefniadau a gynlluniwyd yn Chwarter 2 gyda dadansoddiad cryfach yn Ffynnon o'r targedau a osodwyd ac yn ymgorffori risgiau a'r mesurau a osodwyd i liniaru'r risgiau hynny ac i ddarparu sicrwydd corfforaethol o wella perfformiad.

Cafwyd trafodaeth wedi hynny ynglŷn â statws CAG Eitem 5 (trefniant, cysondeb ac effeithlonrwydd uwch dîm rheoli'r Cyngor) ac Eitem 10 (y berthynas rhwng aelodau a grwpiau gwleidyddol). Roedd y Comisiynwyr a'r Aelodau o'r farn y dylai'r ddau gael eu newid i statws oren.

Eglurodd y Swyddog y rhesymeg dros y statws CAG cyfredol.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiad.*

7.2 Cyflwynwyd – Y Blaenoriaethau canlynol o ran Gwella Llywodraethu Corfforaethol:-

(a) **<u>Cyllid a TGCh</u>**

Cafwyd adroddiad gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro - Bod nifer o adroddiadau gan bartïon allanol a rheolwyr wedi amlygu diffyg capasiti mewn gwasanaethau corfforaethol. Roedd gostyngiadau yn niferoedd y staff i gyfarfod ag arbedion dros y blynyddoedd hefyd wedi golygu na fu modd llenwi nifer o swyddi gweigion pwysig.

O'r herwydd, roedd yna broses ddau gyfnod i adeiladu capasiti i mewn i'r adrannau corfforaethol trwy sicrhau adnoddau ychwanegol yn y tymor byr i allu symud ymlaen gydag amserlen ddarparu yn 2011/12 ar sail unwaith yn unig ac adeiladu capasiti i'r gyllideb sail yn 2012/13. Byddai angen rhoddi ystyriaeth i sut yr oedd yr Awdurdod yn penodi staff i swyddi gweigion a sicrhau bod adnoddau pellach ar gael i hyfforddi ac i gefnogi staff er mwyn sicrhau y gallai swyddogaethau gael eu darparu yn y tymor canolog.

Ar hyn o bryd, roedd staff dros dro yn llenwi'r swyddi gweigion yn yr Adran Gyllid ac fe allai hynny yn y tymor byr helpu i symud yr adran yn ei blaen ond ni fyddai'n darparu swyddogaeth gynaliadwy yn y tymor hir i ddarparu i'r safonau ac i'r amserlen fyddai eu hangen.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at gynigion i fynd i'r afael â'r materion canlynol:-

- Swyddi Gweigion
- Cyfrifon Terfynol
- Cyfrifo Asedau sefydlog
- Datganiad Llywodraethu Corfforaethol
- Datganiad Cyllidebol a'r Broses Cyllidebol
- Cynllun Darparu Gwasanaeth
- TGCh
- Gofynion Adnoddau AD

*Nododd y Bwrdd Gwella y byddai'r adroddiad uchod yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod ffurfiol y Bwrdd Comisiynwyr yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw.*

(b) **Cofrestr Risg Corfforaethol**

Cyflwynwyd cofrestr ddrafft gychwynnol o risgiau corfforaethol gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro yn amlinellu'r prif risgiau oedd yn wynebu'r Cyngor ac a fyddai'n helpu'r Comisiynwyr, Aelodau Etholedig ac uwch reolwyr i wneud penderfyniadau gwybodus a blaenoriaethu unrhyw gamau i'w cymryd yn y dyfodol. Byddai'r gofrestr yn parhau i gael ei diweddaru yng ngoleuni newid ac yn cael ei hadolygu'n chwarterol a byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant ac Oedolion) yn cael eu cynnwys.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiad.*

(c) **Cynllun Corfforaethol / Agweddau Ymgysylltu Cymunedol**

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) - Mai diweddariad oedd yr adroddiad ar raglen diwygio llywodraethu corfforaethol y Cyngor hwn sy'n canolbwyntio'n arbennig ar ymarfer ymgysylltu cymunedol y Cyngor i siapio ei flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer y Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-15 sydd wrthi'n cael ei lunio.

Roedd yr adroddiad hwn yn nodi'r prosesau yr ymgymerwyd â nhw gan y Cyngor i goladu gwybodaeth a dealllusrwydd a gyflenwyd gan gydranddeiliaid er mwyn rhoi'r data angenrheidiol i'r sefydliad i helpu i wneud penderfyniadau ac i ddrafftio Cynllun Busnes Corfforaethol. Byddai cynllun newydd yn cael ei ddatblygu gan swyddogion, a byddai ymgynghori pellach yn y flwyddyn galendr newydd gyda'r nod o gael cytundeb a'i fabwysiadu yng nghyfarfod y Cyngor ar 8 Mawrth 2012.

*Roedd y Bwrdd Gwella yn nodi'r gwaith yr oedd y swyddogion yn ei wneud ynglŷn â'r amserlen ymgysylltu cyn-cynllunio yr oedd ei hangen i helpu i ddrafftio Cynllun Busnes Corfforaethol newydd.*

(ch) **Adnoddau Dynol**

Cafwyd adroddiad gan y Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol – Bod yna rai risgiau allweddol oedd angen eu rheoli fel y gallai'r Cyngor hwn symud ymlaen a chreu'r weledigaeth strategol oedd ei hangen yn y sefydliad ar gyfer rheoli ei weithwyr.

Un o'r heriau mwyaf yn y 12 mis diwethaf fu delio â nifer o flaenoriaethau gwahanol oedd yn cystadlu â'i gilydd gan amrywiaeth eang o wahanol gydranddeiliaid a hynny ymhellach i'r hyn oedd wedi'i nodi yn y Cynllun Gweithredu AD a gwaith AD o ddydd i ddydd a gwaith heb ei wneud a etifeddwyd ac y cyfeirir ato yn adroddiad y Comisiynwyr. Er bod AD wedi delio gyda'r rhan fwyaf o'r heriau hyn o fewn y cyfnod amser, nid oedd y math hwn o fomentwm gyda'r capasiti staff cyfyngedig yn rhywbeth cynaliadwy yn y tymor hir.

O fewn y 10 thema gwella, roedd yna rai elfennau yn ymwneud ag AD fel gwella rheoli perfformiad trwy'r gwerthusiad cymwyseddau corfforaethol newydd. Roedd y rhain wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2011-12, cyn belled ag y bo adnoddau'n cael eu dyrannu.

Roedd diffyg staff hefyd yn lleihau'r cyfle i ymchwilio ac i ddatblygu trefniadau cydweithio naill ai ar sail gydweithredol neu fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth.  Roedd yn hanfodol fod digon o adnoddau yn y Gwasanaeth fel y gellid symud ymlaen gyda rhai elfennau strategol.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiad fyddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r bwriad i gryfhau'r gwasanaethau corfforaethol.*

## 8.  PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADDYSG

*Gohiriwyd unrhyw ystyriaeth ar y mater hwn hyd y cyfarfod nesaf.*

## 9.  PERFFORMIAD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) - Bod archwiliad gan AGGCC fis Mawrth 2011 ar y prosesau asesu a rheoli achos yn y Gwasanaethau Plant wedi dod ar draws rhai materion yn ymwneud ag asesu a rheoli achosion plant ym Môn, ansawdd ac amseroldeb rhai asesiadau, cyfathrebu gyda staff ac asiantaethau partner, diffyg unrhyw ddiwylliant o reoli perfformiad ac absenoldeb system o sicrwydd ansawdd.  Fodd bynnag, roedd yna nifer o bethau cadarnhaol wedi'u nodi yn yr adroddiad ac roedd angen cydbwyso'r rheini yn erbyn yr heriau a nodwyd.

Roedd y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei roi ar waith gyda chymorth 3 ymgynghorydd allanol profiadol.  Roedd Bwrdd Gwella Gwasanaeth hefyd wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod yna drosolwg effeithiol o'r Rhaglen Wella a thrwy herio a chefnogi, ei alluogi i ddarparu'r rhaglen wella i'r safonau angenrheidiol. Byddai'r Bwrdd yn monitro ac yn herio cynnydd a chyflawniadau yn erbyn y mesurau canlyniadau / perfformiad. Byddai'r Bwrdd yn adrodd yn ôl i'r Cyfarwyddwr, y Pwyllgor Sgriwtini ac i'r Comisiynwyr.

Y camau allweddol ar gyfer Chwarter 3 fyddai cadw cynaliadwyaeth y newidiadau a'u sefydlu i mewn i arferion pob dydd a diwylliant y gwasanaeth.  Byddai camau'n cael eu cymryd i gywiro'r elfennau gwaith a oedd allan o darged.

*Nododd y Bwrdd Gwella gynnwys yr adroddiad.*

## 10.  CYNLLUNIAU RHESYMOLI A PHARTNERIAETHAU

*Gohiriwyd unrhyw ystyriaeth ar yr eitem hon hyd y cyfarfod nesaf.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:20am**

**Y COMISIYNYDD GARETH JONES**
**CADEIRYDD**